CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 18fed o FAI 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Bedwyr Gwilym

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Annwen Daniels, Erwyn Jones, Will G. Roberts

9881/05/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Mari Rees a Rory Francis

9882/05/17 DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Will G Roberts 9869/05/17 Ceisiadau Cynllunio

9883/05/17 MATERION BRYS
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.
Bu i'r Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd Annwen Daniels ar ei phenodiad fel Cadeirydd Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2017/2018.

Cafwyd gwybodaeth bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnig 4 coeden afal fydd yn barod i'w plannu ym mis Hydref.
PENDERFYNIAD: I drafod y mater ymhellach mewn Pwyllgor Mwynderau, nos Iau 25ain o Fai 2017 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

Cafwyd gwybodaeth am brosiect newydd sy'n cael ei gynllunio yng ngogledd a chanolbarth Cymru yn canolbwyntio ar goetiroedd derw'r Iwerydd. Gofynnir i'r Cyngor Tref gwblhau arolwg.
PENDERFYNIAD: I drafod y mater ymhellach mewn Pwyllgor Mwynderau, nos Iau 25ain o Fai 2017 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

Cafwyd gwybodaeth bod dyddiadau nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynghorau Tref a Chymuned 2017 wedi eu cyhoeddi. Cynhelir cyfarfod yng Nghoed y Brenin, Dolgellau rhwng 6.30 ac 8.30 nos Fawrth 13eg o Fehefin ac ym Mhlas y Brenin, Capel Curig rhwng 6.30 ac 8.30 nos Fawrth 20fed o Fehefin. Bydd cyfarfod hefyd yn cael ei gynnal yn Aberdyfi.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9884/05/17 MATERION YR HEDDLU

Roedd y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Delyth Edwards yn bresennol yn y cyfarfod ond yn anffodus methodd yr Arolygydd Gethin Jones fod yn bresennol oherwydd salwch.

Cafwyd gwybodaeth bod rhai wedi dwyn o ambell le yn ddiweddar ond i'r rhai oedd tyn gyfrifol fod wedi eu harestio erbyn hyn.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod rhai wedi eu harestio am gwffio yn ddiweddar.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9885/05/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 6ed EBRILL 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Annwen Daniels yn eilio gyda chywirdeb ar gofnod 9848/04/17 mai diffibriliwr sydd yn mynd at y claf.

9886/05/17 CYFRIFON I'W TALU

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	93.38	Rhif Siec.	002426
Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	309.65	Rhif Siec.	002427
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.60	Rhif Siec.	002428
J P Farrington (Garddio)	£	665.00	Rhif Siec.	002429
K W Jones (Camera cc)	£	960.00	Rhif Siec.	002430
A M Coxon (Costau teithio)	£	24.04	Rhif Siec.	002431
Gwyn Thomas (Man waith)	£	160.00	Rhif Siec.	002436
BT (Ffôn)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	200.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9887/05/17 ARIAN I MEWN

Cyngor Gwynedd (Praesept)	£	75000.00
Clwb Bowlio (Prydles)	£	200.00

9888/05/17 CEISIADAU ARIANNOL

Cafwyd cais am gefnogaeth ariannol gan Reilffordd Blaenau Ffestiniog - Trawsfynydd ond yn anffodus nid yw cyfraniad o'r math yma o fewn awdurdod y Cyngor Tref

9889/05/17 PWYLLGOR ADNODDAU

Trefnu dyddiad cyfarfod Pwyllgor Adnoddau i drafod cyfrifon 2016/2017 y Cyngor Tref wedi iddynt gael eu harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol.

PENDERFYNIAD: I gynnal Pwyllgor Adnoddau i gyd fynd a Phwyllgor Mwynderau yn Siambr y Cyngor nos Iau 25ain o Fai am 7.00 o'r gloch

9890/05/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

Datgan Diddordeb
Cynghorydd Wil G Roberts Ceisiadau Rhif NP5/59/LB218B a NP5/59/LB218B

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/LB218B
Ymgeisydd Ms P Thynne
Fferm Cwm
Cwm Cynfal
Ffestiniog
Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau allanol i gynyddu uchder corn mwg a ffurfio dau agoriad ffenest yn y talcen de gorllewinol; amnewid ffenestr to haearn bwrw am un o fath cadwraeth; amnewid ffenestri dur am rhai derw; ail-bwyntio a morter calch; ychwanegu gwydr i fframiau derw di wydr; tynnu ymaith pibell garthion allanol, a newidiadau mewnol i amnewid llawr cyntaf modern gyda llawr a grisiau derw ac ychwanegu nenfwd yn y rhan De Orllewinol; tynnu pared bric rhwng ystafelloedd gwely ac ychwanegu paredau styd, drysau derw, cypyrddau ac amnewid coler bren fodern a gosod rheilen haearn ar gwpl to ar y llawr cyntaf; addasu cyntedd modern ac addasu maint agoriad lle tan i dderbyn stof i lawr isaf y pen de gorllewinol a gosod llawr llechi; ychwanegu ystlysbost i'r pared derw a chau gwagle i'r pen dwyreiniol; plastro'r wal dalcen dwyreiniol y llawr isaf; ychwanegu rheiddiaduron gwres canolog, pibell garthion a gosodiadau cegin
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/LB218B
Ymgeisydd Ms P Thynne
Fferm Cwm
Cwm Cynfal
Ffestiniog
Cynyddu uchder corn mwg a ffurfio dau agoriad ffenest yn y talcen de gorllewinol; amnewid ffenestr to haearn bwrw am un o fath cadwraeth; newidiadau i'r teras cefn; adfer adeilad allanol; gosod tanc septig a gwely corsen
Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0429/03/LL
Ymgeisydd Cornerstone Telecommunications
Tir ger Canolfan Ail-gylchu
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Cais i dynnu amod 5 o ganiatâd C16/1450/03/HT sy'n ymwneud a thirweddu
Dim Gwrthwynebiad

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0422/03/HY
Ymgeisydd Cardtronics Ltd
Eurospar
Blaenau Ffestiniog
Arwyddion cysylltiol a'r peiriant ATM
Dim Gwrthwynebiad

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0423/03/HY
Ymgeisydd Cardtronics Ltd
Eurospar
Blaenau Ffestiniog
Gosod peiriant ATM
Dim Gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio Rhif NPNP5/59/L522E
Ymgeisydd Mr P. & Dr K. Bridges
Plas Blaenddol
Ffestiniog
Newid defnydd adeilad storio i ffurfio 1 uned llety gwyliau
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0102/03/LL
Ymgeisydd North Wales Recycling Ltd
Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog
Cais am orsaf trosglwyddo gwastraff i dderbyn a phrosesu deunyddiau anadweithiol
Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif C16/1053/03/LL
Ymgeisydd Vodafone Ltd
Tir ger Y Ddôl
Tanygrisiau
Gosod polyn gyda 3 antenna i gyfanswm uchder o 20m, gosod un lloeren cyfathrebu ynghyd a gosod 3 cabinet offer, 1 cabinet yn cynnwys mesurydd gyda ffens 2m uchder yn amgylchynu
Caniatáu

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0323/03/LL
Ymgeisydd L Hughes & B Roberts
Chwarel Madog
Manod
Blaenau Ffestiniog
Cais i godi tŷ
Gwrthod

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod a derbyn y wybodaeth parthed penderfyniadau gan yr Awdurdod Cynllunio.

9891/05/17 <u>WARD BOWYDD A RHIW</u>

Datgan sedd wag yng ngward Bowydd a Rhiw a'r bwriad i gyfethol cynghorydd ar gyfer y sedd wag.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau cynhaliwyd ar 4 Mai 2017 bu i'r Cynghorwyr ddatgan sedd wag yng ngward Bowydd a Rhiw

9892/05/17 WARD DIFFWYS A MAENOFFEREN

Datgan seddi gwag yng ngward Diffwys a Maenofferen a'r bwriad i gyfethol dau gynghorydd ar gyfer y seddi gwag.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau cynhaliwyd ar 4 Mai 2017 bu i'r Cynghorwyr ddatgan dwy sedd wag yng ngward Diffwys a Maenofferen.

9893/05/17 WARD CONGLYWAL

Datgan seddi gwag yng ngward Conglywal a'r bwriad i gyfethol tri gynghorydd ar gyfer y seddi gwag.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau cynhaliwyd ar 4 Mai 2017 bu i'r Cynghorwyr ddatgan tair sedd wag yng ngward Conglywal.

9894/05/17 WARD CYNFAL A TEIGL

Datgan seddi gwag yng ngward Cynfal a Teigl a'r bwriad i gyfethol tri gynghorydd ar gyfer y seddi gwag.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau cynhaliwyd ar 4 Mai 2017 bu i'r Cynghorwyr ddatgan tair sedd wag yng ngward Cynfal a Teigl.

9895/05/17 WARD CYNFAL A TEIGL

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn cais am gyfetholiad ar gyfer gward Cynfal a Theigl gan y cyn cynghorydd Mel Goch ap Meirion. Eglurodd y cyn cynghorydd iddo beidio sefyll yn yr etholiad lleol diweddar, yn bennaf oherwydd bydd wedi cyrraedd ei saithdegau erbyn diwedd tymor y cyngor. Er hynny roedd yn fawr siom iddo nad oedd enwau ymlaen i gynrychioli ward Cynfal a Teigl, ag ar ôl cynrychioli'r ward am 15 mlynedd, nid hawdd yw troi cefn ar y sefyllfa.

PENDERFYNIAD: Cyfetholwyd Mel Goch ap Meirion i gynrychioli gward Cynfal a Theigl gan edrych ymlaen unwaith eto i dderbyn ei gyfraniad amhrisiadwy i'r Cyngor Tref.

9896/05/17 DIFFIBRILIWR

Bu trafodaeth ynglŷn â pha diffibriliwr i brynu.

PENDERFYNIAD: I brynu diffribiliwr Zoll AED 3 am bris o £1185.00 a chabinet AIVIA 210 gyda larwm, gwres a bysellbad ar glo am bris o £495.00 gan Ambiwlans Sant Ioan.

9897/05/17 CYNGOR GWYNEDD –
COMISIWN FFINIAU, ADOLYGU'R FFINIAU

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynigion posib yn yr adolygiad i wneud etholaethau'r ardal yn fwy cynaliadwy.

PENDERFYNIAD: I gynnig bod ffin gward Diffwys a Maenofferen yn cael ei symud ymhellach draw ar Ffordd Manod fel bod y ffin mewn llinell syth o derfyn Chwarel Madog.

9898/05/17 CYNGOR GWYNEDD – TOILEDAU CYHOEDDUS

Cadarnhau ac arwyddo cytundeb parthed Cynllun Partneriaeth rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd i ariannu'r toiledau cyhoeddus.

PENDERFYNIAD: Bu i'r cytundeb gael ei gadarnhau a'i arwyddo a gofynnwyd i'r toiledau fod ar agor hyd o leiaf amser i'r trên olaf adael.

9899/05/17 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth bod Canolfan Coffa i'w agor ym mis Medi.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9900/05/17 PARTNERIAETH Y PARC

Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

9901/05/17 CAEAU CHWARAE

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrynu bin ychwanegol i gae chwarae Sgwâr Oakeley

PENDERFYNIAD: I holi am bris 5 bin newydd gyda logo'r Cyngor Tref arnynt o gwmni Broxap.

9902/05/17 CYNGOR GWYNEDD – PWYLLGOR SAFONAU GWYNEDD

Cyfle i enwebu un o aelodau Cyngor Tref Ffestiniog i wasanaethu fel 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd ar ôl etholiadau mis Mai

PENDERFYNIAD: I roi enw'r Cadeirydd, y Cynghorydd Bedwyr Gwilym ymlaen i'w ystyried ar gyfer enwebiad fel 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd.

9903/05/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Ni chafwyd adroddiad

9904/05/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Ni chafwyd unrhyw newyddion

9905/05/17 CHWARAE DROS GYMRU

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.57yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 15fed MEHEFIN 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 15fed MEHEFIN 2017
AR YR 7fed MEHEFIN 2017